Estyn | Dros ddysgwyr, dros Gymru
For learners, for Wales

Ysgol Gymuned Llanfechell
Llanfechell
Amlwch
LL68 0SA

29/01/2026

Annwyl arweinwyr a staff

**Ymweliad Interim:** Ionawr 2026

Ymwelodd tîm o arolygwyr ag Ysgol Gymunedol Llanfechell yn ddiweddar i ystyried cynnydd mewn perthynas ag argymhelliad o'r arolygiad craidd blaenorol yn ogystal ag un o flaenoriaethau datblygu cyfredol yr ysgol. Manteisiodd y tîm ar y cyfle i arsylwi ar addysgu a dysgu, siarad â disgyblion a staff, craffu ar ddogfennaeth ac edrych ar samplau o waith disgyblion. Isod, ceir crynodeb o ganfyddiadau'r ymweliad.

## Ffocws yr ymweliad

### Sicrhau cyfleoedd cyson i holl ddisgyblion y cyfnod sylfaen wneud dewisiadau ynglŷn â’u dysgu a datblygu medrau dysgu annibynnol

- Mae arweinwyr wedi rhoi blaenoriaeth glir i wella’r ddarpariaeth ar gyfer y disgyblion ieuengaf. Mae hyn yn cynnwys fod pob aelod o staff wedi cael dysgu proffesiynol pwrpasol, er enghraifft i alluogi disgyblion i gael cyfleoedd ystyrlon i wneud dewisiadau am eu dysgu. Trwy hyn, mae’r disgyblion yn datblygu eu medrau yn gynyddol annibynnol dros amser.
- Erbyn hyn, mae athrawon yn cynllunio’n fwriadus i ddarparu ardaloedd dysgu ysgogol sy’n ennyn diddordeb  disgyblion yn llwyddiannus. Mae’r ardaloedd yn cynnwys ystod eang o weithgareddau dysgu difyr sy’n cynnig cyfleoedd pwrpasol i ddisgyblion ddatblygu eu medrau’n annibynnol, ar lefel sy’n briodol i’w hoedran a’u cam datblygu.
- Mae staff yn darparu cyfleoedd bwriadus i ddisgyblion benderfynu pa ardal ddysgu a phryd sydd fwyaf addas iddynt i’w defnyddio, fel y bo’n briodol.

Estyn, Llys Angor, Heol Keen, Caerdydd, CF24 5JW Ffôn: 02920 446446 ymholiadau@estyn.llyw.cymru www.estyn.llyw.cymru

Estyn, Anchor Court, Keen Road, Cardiff, CF24 5JW Telephone: 02920 446446 enquiries@estyn.gov.wales www.estyn.gov.wales

Mae Estyn yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg a Saesneg. Bydd gohebiaeth a dderbynnir yn y naill iaith neu’r llall yn cael yr un flaenoriaeth.

Estyn welcomes correspondence in both English and Welsh. Correspondence received in either language will be given equal priority.

- Maent yn ymyrryd yn ystyriol, gan osgoi gor-oruchwylio, i alluogi'r disgyblion i ddysgu'n annibynnol ac ar y cyd, wrth iddynt ddatblygu eu medrau, a dwysáu eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o wahanol feysydd dysgu a phrofiad.
- Mae prosesau hunanwerthuso'r arweinwyr yn cydnabod mai'r cam nesaf ar gyfer y staff yw i ddatblygu'r ardaloedd dysgu ar gyfer y disgyblion hynaf er mwyn eu cefnogi i ddatblygu eu medrau dysgu annibynnol yn gynaledig dros amser.

## Cryfhau gweithdrefnau monitro a chynlluniau gwella'r ysgol i ganolbwyntio'n gadarn ar wella deilliannau disgyblion

- Mae arweinwyr wedi mireinio prosesau hunanwerthuso a chynllunio gwelliant yn briodol, er mwyn canolbwyntio'n fwy miniog ar effaith yr addysgu ar gynnydd a safonau disgyblion. Maent yn defnyddio'r wybodaeth yn bwrpasol i lywio blaenoriaethau cytûn a synhwyrol, ac i nodi cyfleoedd clir i yrru gwelliannau parhaus.
- Mae gan arweinwyr amserlen synhwyrol, sy'n cynnwys ystod briodol o weithgareddau monitro pwrpasol, i werthuso ansawdd y ddarpariaeth a deilliannau'r disgyblion. Mae hyn yn eu galluogi i nodi camau nesaf eu gwaith yn gywir ac i ddathlu llwyddiannau'r ysgol yn briodol.
- Yn gyffredinol, mae staff yn cael cyfleoedd addas i werthuso ansawdd yr addysgu a'r dysgu o fewn eu meysydd cyfrifoldeb. Mae'r pennaeth yn cydnabod yr angen i gynllunio cyfleoedd bwriadus a gwerthfawr i staff feithrin eu medrau arwain yn fwy cyson, a dyfnhau eu dealltwriaeth o gryfderau ac agweddau i'w datblygu o fewn y ddarpariaeth, er mwyn gyrru gwelliannau cynaliadwy dros amser.
- Yn dilyn dysgu proffesiynol pwrpasol i gryfhau medrau aelodau'r corff llywodraethol, maent bellach yn ymweld â'r ysgol yn fwy rheolaidd i gasglu tystiolaeth uniongyrchol am ei gwaith. Mae hyn yn eu galluogi i herio a chefnogi'r pennaeth yn synhwyrol, ac i ddwyn yr ysgol i gyfrif yn fwy effeithiol.
- Mae arweinwyr yn cynllunio ac yn teilwra dysgu proffesiynol buddiol sy'n cyd-fynd yn fwriadus â blaenoriaethau gwella'r ysgol. Ar y cyfan, mae hyn yn cynnal disgwyliadau priodol ac yn cyfrannu'n bwrpasol at welliannau addas yn ansawdd y ddarpariaeth, er enghraifft drwy gryfhau medrau digidol ehangach disgyblion dros amser.

Estyn | Dros ddysgwyr, dros Gymru
For learners, for Wales

Gellir dod o hyd i adroddiad arolygu craidd diweddaraf yr ysgol a gwybodaeth bellach am broses a phwrpas ymweliadau interim ar ein gwefan: http://www.estyn.llyw.cymru/darparwr/6602153

Yn gywir

LMiles.

**Liz Miles**
Cyfarwyddwr Cynorthwyol